Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Gynradd Cwm**
**Stryd Canning**
**Cwm**
**Glyn Ebwy**
**Blaenau Gwent**
**NP23 6RD**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2012**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Iechyd ar Waith – Cyrraedd y Nod – The Corporate Standard – Health at Work

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd – Green Dragon Environmental Standard

Investors in People | Gold

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 18/12/2012**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Cwm yng Nghwm, Glyn Ebwy, yn awdurdod lleol Blaenau Gwent. Mae'r ysgol yn darparu addysg ar gyfer bechgyn a merched rhwng tair ac 11 oed. Mae 208 o ddisgyblion ar y gofrestr, yn cynnwys 34 o oedran meithrin. Mae'r ysgol yn derbyn plant i'r meithrin yn y tymor ar ôl eu trydydd pen-blwydd. Mae naw dosbarth, yn cynnwys y meithrin. Mae'r ardal a wasanaethir gan yr ysgol dan anfantais economaidd ac mewn Ardal Cymunedau yn Gyntaf. Mae gan ddau ddeg un y cant o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim, sydd uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan. Mae'r ysgol yn nodi bod gan 21% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, yn cynnwys nifer fach o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Saesneg yw mamiaith bron pob disgybl. Nid yw'r Gymraeg yn famiaith unrhyw ddisgybl. Mae llai na 2% o ddisgyblion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn Nhachwedd 2006. Penodwyd y pennaeth presennol ym Mai 2011, ar ôl 16 mis yn bennaeth dros dro. Penodwyd y dirprwy bennaeth yn Ionawr 2012.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Cwm yn 2012-2013 yn golygu mai'r gyllideb yw £3,966 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion cynradd ym Mlaenau Gwent yw £5,681 a'r isafswm yw £3,285. Mae Ysgol Gynradd Cwm yn safle 19 o'r 27 o ysgolion cynradd ym Mlaenau Gwent o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol Ysgol Gynradd Cwm yn dda oherwydd:

- bod disgyblion yn mwynhau'r ysgol, yn awyddus i ddysgu ac yn teimlo bod pobl yn gwrando arnynt;
- bod perthynas dda iawn ar draws yr ysgol;
- bod ymddygiad yn dda;
- bod cysylltiadau da iawn gyda rhieni;
- bod yr amgylchedd dysgu yn gynhwysol a gofalgar;
- bod cyfleoedd datblygedig i ddisgyblion ddysgu am gynaliadwyedd; a
- bod strategaethau ymyrryd yn cael effaith gadarnhaol iawn ar godi safonau disgyblion mewn darllen ac ysgrifennu.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn Ysgol Gynradd Cwm yn dda oherwydd:

- bod y pennaeth, yr uwch dîm arweinyddiaeth a'r llywodraethwyr yn llwyddo i ddatblygu gweledigaeth a chyfeiriad clir, ar y cyd ar gyfer yr ysgol;
- bod arweinwyr a rheolwyr wedi cymell staff fel eu bod i gyd yn dangos ymrwymiad brwd i broses gwella'r ysgol;
- bod data yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol iawn i dargedu disgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt; a
- bod yr ysgol wedi datblygu ystod o bartneriaethau cryf, sy'n cael effaith gadarnhaol ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion a'u lefelau lles.

## Argymhellion

A1 Parhau i godi safonau mewn darllen ar draws yr ysgol ac ymestyn medrau ysgrifennu disgyblion ar draws y cwricwlwm yn y Cyfnod Sylfaen;

A2 gwella defnydd disgyblion o fedrau rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar draws y cwricwlwm;

A3 sicrhau bod gwersi'n cael eu cynllunio a'u cyflwyno i fodloni anghenion pob disgybl, yn enwedig y rhai mwy abl; a

A4 datblygu system fonitro mwy arfarnol, sy'n canolbwyntio ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu.

## Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau o waelodlin islaw'r cyfartaledd, ond mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae medrau siarad a gwrando ar draws yr ysgol yn dda. Mae mwyafrif y disgyblion yn siarad yn hyderus ac yn gwrando'n ofalus mewn ystod eang o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Maent yn ymateb yn dda iawn i gwestiynau athrawon, a gallant alw i gof ddysgu blaenorol yn gywir. O gymharu, nid yw eu medrau rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu wedi'u datblygu cystal.

Mae disgyblion hŷn yng nghyfnod allweddol 2 yn dechrau ymestyn eu galluoedd datrys problemau yn effeithiol. Maent yn trefnu eu gwaith yn rhesymegol ac yn llunio casgliadau pan fyddant yn cynnal ymchwiliadau mewn mathemateg, er enghraifft. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 hefyd yn nodi'r medrau fydd eu hangen arnynt i gwblhau tasg yn gywir, ac maent yn datblygu'n dda fel dysgwyr annibynnol. Mae llawer o ddisgyblion wedi datblygu medrau meddwl da, ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu dysgu a'r safonau a gyflawnir ganddynt.

Dros y 18 mis diwethaf, mae rhaglenni cymorth newydd wedi helpu i wella medrau darllen llawer o ddisgyblion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio eu gwybodaeth ffonig gyda hyder cynyddol, ond mae llawer ohonynt yn parhau i ddarllen ar lefel islaw eu hoedran cronolegol. Megis dechrau datblygu y mae medrau darllen lefel uwch disgyblion hŷn, fel brasddarllen a bwrw golwg. Mae llawer o ddisgyblion yn darllen ac ysgrifennu'n dda o ystyried eu hoedran a'u gallu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ysgrifennu mewn gwersi iaith. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion yn frwdfrydig iawn ynghylch ysgrifennu. Maent yn dechrau ysgrifennu'n fwy annibynnol, ond at ystod gyfyngedig o ddibenion. Yng nghyfnod allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion yn ysgrifennu ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd gwahanol yn effeithiol, ond nid yw disgyblion mwy abl bob amser yn hyderus wrth gynllunio ac ailddrafftio eu hysgrifennu i greu darnau estynedig.

Mae llawer o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn unol â'u galluoedd pan fyddant yn dilyn rhaglenni cymorth ychwanegol wedi'u targedu'n ofalus ar gyfer llythrennedd a rhifedd.

Mae safonau mewn Cymraeg ail iaith ar draws yr ysgol yn dda. Mae gan ddisgyblion agweddau cadarnhaol at eu treftadaeth Gymreig ac at ddysgu Cymraeg. Mae bron pob disgybl yn hyderus yn canu caneuon Cymraeg a chynnal sgyrsiau syml. Maent yn aml yn defnyddio eu medrau Cymraeg yn ddigymell.

Oherwydd niferoedd bach y disgyblion ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol, mae angen trin canlyniadau asesiadau disgyblion yn ofalus. Gall canlyniadau un disgybl gael effaith sylweddol ar berfformiad cyffredinol yr ysgol.

Yn 2012, roedd perfformiad disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen uwchlaw cyfartaleddau'r teulu ar gyfer medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu a datblygiad mathemategol, ond islaw ar gyfer datblygiad personol a chymdeithasol. O gymharu ag ysgolion sydd â chanran debyg o ran disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim, roedd yr ysgol yn y 50% uchaf mewn perthynas â medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu a datblygiad mathemategol, ond yn y 50% is ar gyfer datblygiad personol a chymdeithasol. Roedd perfformiad disgyblion mwy abl islaw cyfartaleddau'r teulu mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu a datblygiad mathemategol, ond uwchlaw cyfartaledd y teulu ar gyfer datblygiad personol a chymdeithasol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad disgyblion mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi amrywio'n sylweddol dros y pedair blynedd diwethaf. Mae perfformiad wedi bod uwchlaw cyfartaleddau'r teulu yn gyson, heblaw am ostyngiad yn 2011. O gymharu ag ysgolion sydd â chanran debyg o ran disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim ar gyfer 2012, mae'r ysgol yn y 50% uchaf ar gyfer mathemateg ond yn y 50% is ar gyfer Saesneg a gwyddoniaeth. Mae canlyniadau disgyblion mwy abl wedi amrywio'n sylweddol dros gyfnod hefyd. Fodd bynnag, yn 2012, roedd perfformiad disgyblion ar y lefel uwch (lefel 5) ym mhob un o'r tri phwnc uwchlaw cyfartaleddau'r teulu ac ysgolion eraill tebyg.

**Lles: Da**

Mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod gyda phwy i siarad os ydynt yn poeni neu'n gofidio. Ymdrinnir ag unrhyw achosion o fwlio yn gyflym ac yn deg. Mae disgyblion yn gwrtais, yn gyfeillgar ac yn dangos parch tuag at ei gilydd ac oedolion. Maent yn ymddwyn yn dda o amgylch yr ysgol ac ar y meysydd chwarae. Mae cyflwyno 'Amser Aur' wedi cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad yn gyffredinol.

Mae gan bron bob un o'r disgyblion ddealltwriaeth glir iawn o bwysigrwydd datblygu ffordd iach o fyw. Maent yn dangos gwybodaeth dda am werth hylendid da, maeth ac ymarfer corff rheolaidd.

Mae presenoldeb, sydd ychydig dros 94%, ymhell uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg ac mae wedi dangos cynnydd cyson yn ddiweddar. Mae disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i'r ystod o fesurau a roddodd yr ysgol ar waith i annog presenoldeb da. Mae bron pob disgybl yn cyrraedd yn brydlon yn y bore.

Mae'r cyngor ysgol yn cymryd rhan weithgar mewn gwneud penderfyniadau, ac mae wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr at y ddarpariaeth amser cinio trwy ei ymgyrch i gyflwyno bar salad. Mae disgyblion yn ymwybodol o anghenion pobl eraill yn y gymuned ehangach, ac maent wedi helpu llawer o elusennau lleol a chenedlaethol.

Mae disgyblion yn dechrau datblygu eu gallu i wella'u dysgu eu hunain, gweithio gydag eraill a datblygu eu medrau meddwl. Mae hyn yn helpu i'w symud ymlaen i'r cyfnod nesaf yn eu dysgu.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

At ei gilydd, caiff profiadau dysgu eu cynllunio'n llwyddiannus wrth ymdrin â gofynion y Cyfnod Sylfaen a'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Trwy gyfuniad o gynlluniau'r awdurdod lleol a chynlluniau cyhoeddedig, mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth a dealltwriaeth bresennol disgyblion.

Caiff ystod dda o raglenni ymyrraeth eu defnyddio'n dda i godi safonau disgyblion a nodwyd. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio ar gyfer cymhwyso medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar draws y cwricwlwm wedi cael ei ymgorffori'n llawn eto. O ganlyniad, ni chaiff disgyblion mwy abl eu herio bob amser.

Mae hyrwyddo treftadaeth a diwylliant Cymru yn nodwedd gadarnhaol yn yr ysgol.

Caiff ymwybyddiaeth disgyblion ei datblygu'n effeithiol trwy wersi a dathliadau, ac mae mwyafrif y staff yn modelu'r iaith yn dda.

Caiff disgyblion addysg dda ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang, yn yr ystafell ddosbarth a thrwy weithgareddau allgyrsiol. Mae aelodau'r eco-bwyllgor yn dangos ymwybyddiaeth frwd o heriau amgylcheddol presennol a sut i fynd i'r afael â nhw. Mae'r ysgol yn rhoi cyfleoedd priodol i ddisgyblion ennill ymwybyddiaeth o'r byd ehangach, trwy wasanaethau a gwaith testun.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu'n dda ar y cyfan. Mae pob athro yn sefydlu perthynas waith dda gyda disgyblion ac yn rheoli ymddygiad yn effeithiol. Yn yr arfer orau, mae athrawon yn gosod amcanion clir, mae gwersi'n symud yn dda, ac fe gaiff disgyblion eu symbylu i ddysgu. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn dangos gwybodaeth bynciol dda ac yn defnyddio ystod effeithiol o strategaethau addysgu. Ar y cyfan, mae staff cymorth yn cyfrannu'n dda at ddysgu'r disgyblion mewn dosbarthiadau ac mewn sesiynau cymorth ychwanegol. Pan fydd yr addysgu'n cynnwys diffygion, nid yw disgwyliadau athrawon o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni yn ddigon uchel bob amser, yn enwedig ar gyfer disgyblion mwy abl.

Mae pob athro'n marcio gwaith disgyblion yn gydwybodol. Mewn llawer o ddosbarthiadau, mae sylwadau marcio yn dangos yr hyn y mae disgyblion wedi'i gyflawni a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella. Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn datblygu'n dda, ac mae disgyblion hŷn yng nghyfnod allweddol 2 yn dod yn fwyfwy medrus yn asesu eu gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill. Gosodir targedau ar gyfer disgyblion unigol, ond nid yw hyn yn cael effaith ar y safonau a gyflawnir gan y rhan fwyaf o ddisgyblion eto. Fodd bynnag, mae'r ysgol yn defnyddio data'n dda i olrhain cynnydd pob disgybl a chynllunio ar gyfer cymorth ychwanegol pan fydd angen.

Mae adroddiadau i rieni yn llawn gwybodaeth ac yn bodloni gofynion statudol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae’r ysgol yn annog ei disgyblion i ddatblygu ffordd iach o fyw yn effeithiol, ac mae’r ystod eang o glybiau allgyrsiol yn cefnogi hyn yn dda. Mae’r rhain yn cynnwys llawer o weithgareddau chwaraeon, cerddoriaeth, cyfrifiaduron a garddio, ac mae mwyafrif y disgyblion yn eu mynychu.

Mae’r ysgol yn darparu’n dda ar gyfer datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol disgyblion. Mae gwasanaethau’n hyrwyddo ystod o werthoedd priodol ac yn rhoi cyfleoedd da i ddisgyblion fyfyrio ar faterion cyfredol.

Mae cysylltiadau da gydag ystod o wasanaethau arbenigol, a chânt effaith dda ar gyflawniadau disgyblion. Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae cymorth wedi’i dargedu’n glir ar gyfer grwpiau o ddisgyblion sy’n agored i niwed wedi arwain at welliannau sylweddol yn eu hagweddau, eu hyder a’u cyflawniad. Mae rhaglenni ymyrraeth wedi’u teilwra’n dda i fodloni anghenion gwahanol grwpiau o ddisgyblion. Mae’r ysgol yn nodi anghenion dysgu ychwanegol llawer o ddisgyblion yn effeithiol ac yn sicrhau bod yr anghenion hyn yn cael eu bodloni.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae’r ysgol yn hyrwyddo amgylchedd cynhwysol yn effeithiol iawn, ac mae’n gwerthfawrogi cefndir ac amrywiaeth pob un o’i disgyblion. Caiff disgyblion gyfle cyfartal i fanteisio ar bob agwedd ar y ddarpariaeth. Rhoddir pwyslais clir ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth. Mae’r ysgol yn hyrwyddo gwerthoedd cydraddoldeb a thegwch yn dda.

Mae arddangosiadau wal o amgylch yr ysgol yn helpu i hyrwyddo amgylchedd dysgu cadarnhaol, ond ni chaiff digon o waith y disgyblion eu hunain ei arddangos mewn rhai ystafelloedd dosbarth. Caiff y mannau tu allan eu cynnal yn arbennig o dda. Maent yn cynnwys adnoddau effeithiol, ac fe’u defnyddir yn dda fel ystafelloedd dosbarth yn yr awyr agored. At ei gilydd, mae ystod briodol o adnoddau dysgu ar draws yr ysgol.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae’r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarnhaol. Mae ganddi weledigaeth glir a disgwyliadau uchel. Mewn cyfnod cymharol fyr, mae hi wedi cyflwyno nifer o fentrau sy’n dechrau cael effaith gadarnhaol ar godi safonau, yn enwedig mewn llythrennedd.

Ers ei phenodi, mae’r pennaeth wedi cydweithio’n dda â staff a llywodraethwyr i osod nodau clir. Mae uwch reolwyr yn cydweithio’n dda, ac mae eu rôl i osod cyfeiriad strategol yr ysgol yn datblygu. Caiff arweinyddiaeth ei dosbarthu’n ehangach erbyn hyn i wneud y defnydd gorau o feysydd arbenigedd y staff. Dechreuwyd monitro’r addysgu a’r dysgu, ond megis dechrau datblygu y mae’r broses o hyd. Mae uwch

arweinwyr yn cyfarfod i drafod newidiadau arfaethedig, goblygiadau o ran adnoddau a gosod targedau cyn dwyn y blaenoriaethau hyn ymlaen i gyfarfodydd staff llawn.

Mae'r corff llywodraethol, sydd wedi wynebu nifer o newidiadau yn ddiweddar, yn gefnogol iawn ac yn fwy gwybodus am ei rôl erbyn hyn.  Mae llawer o lywodraethwyr wedi cael hyfforddiant, ac mae hyn wedi galluogi iddynt fod yn fwy effeithiol wrth ddadansoddi data a gweithredu fel ffrind beirniadol i'r ysgol.  Mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth dda iawn o berfformiad disgyblion.  Maent hefyd yn gyffredinol ymwybodol o sut mae perfformiad disgyblion yn cymharu â pherfformiad disgyblion mewn ysgolion eraill tebyg.

**Gwella ansawdd:  Da**

Mae prosesau hunanarfarnu'r ysgol wedi'u seilio ar ystod addas o dystiolaeth uniongyrchol.  Mae'r dystiolaeth hon yn cynnwys dadansoddiadau gofalus o berfformiad disgyblion, arsylwadau athrawon, craffu ar waith disgyblion a gofyn am farn athrawon, disgyblion a rhieni.  Fodd bynnag, nid yw arsylwadau gwersi bob amser yn canolbwyntio'n ddigon da ar arfarnu ansawdd yr addysgu a'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion.

Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn gynhwysfawr ac yn cyfleu darlun cywir o sefyllfa bresennol yr ysgol.  Trwy graffu ar waith a gweithgareddau safoni, mae arweinwyr yn llunio barnau clir a chywir am safonau disgyblion.  Caiff deilliannau'r broses hunanarfarnu eu defnyddio'n dda i bennu targedau ar gyfer gwella'r ysgol.  Mae targedau'n canolbwyntio'n glir ar godi safonau a gwella ansawdd, yn enwedig mewn llythrennedd.  Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd da wrth gyflawni'r targedau hyn.

Mae diwylliant o gydweithio a gwaith tîm da yn datblygu'n dda yn yr ysgol, ac mae hyn yn helpu i wella'r ddarpariaeth ac yn helpu i godi safonau.  Caiff y rhan fwyaf o'r staff cymorth eu defnyddio'n effeithiol, ac maent yn cymryd rhan mewn meysydd datblygu allweddol, er enghraifft mewn mentrau darllen.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Da**

Mae gan yr ysgol bartneriaethau agos gyda rhieni, ac mae'n ymatebol i'w safbwyntiau.  Mae rhaglenni dysgu teuluol wedi cael effaith gadarnhaol ar allu rhieni i gynorthwyo eu plant â gwaith cartref.  Mae'r gymdeithas rhieni ac athrawon yn weithgar iawn ac yn codi arian sylweddol ar gyfer yr ysgol.  Er enghraifft, yn ddiweddar, cafodd cegin newydd sy'n addas i ddisgyblion, ei hariannu gan rieni, ac maent yn awr yn cynnal clwb coginio, ac fe gaiff hyn effaith gadarnhaol ar ddatblygiad medrau bywyd disgyblion.

Mae cysylltiadau â phobl leol trwy gynllun gwirfoddoli'r gymuned hefyd yn cael effeithiau buddiol ar allu darllen disgyblion a dargedwyd.

Mae cysylltiadau agos gydag ysgolion lleol eraill i drefnu digwyddiadau ar y cyd fel y cyngerdd carolau yn yr eglwys leol.  Mae cysylltiadau da a sefydledig gyda'r ysgol gyfun yn sicrhau cyfnod pontio didrafferth i ddisgyblion Blwyddyn 6 i addysg uwchradd.  Mae trefniadau clwstwr priodol ar y cyd ar waith i safoni asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnodau allweddol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae’r ysgol yn mynd ati’n briodol i nodi targedau ar gyfer y dyfodol ac mae’n dyrannu adnoddau’n dda ar gyfer y blaenoriaethau hyn. Mae digon o staff addysgu a staff cymorth cymwys sy’n cael eu defnyddio’n briodol ar draws yr ysgol. Mae’r broses rheoli perfformiad yn datblygu’n dda, er nad yw’r broses wedi cael ei hymgorffori’n llawn eto. O ganlyniad, nid yw arsylwadau gwersi bob amser yn ddigon arfarnol o ran effaith y strategaethau addysgu a’u heffaith ar ddysgu’r disgyblion. Gwneir trefniadau priodol ar gyfer amser paratoi, cynllunio ac asesu athrawon.

Gwneir defnydd da o ystod o grantiau cymunedol. Ceir y grantiau hyn yn unol â’r blaenoriaethau a nodwyd yng nghynllun gwella’r ysgol. Cafodd gwariant diweddar ar ddeunyddiau darllen ac offer mathemategol ei dargedu’n glir, ac mae’n cael effaith gadarnhaol ar godi safonau disgyblion.

Caiff amgylchedd yr ysgol, yn cynnwys yr adeilad a’r mannau yn yr awyr agored, eu cynnal i safon dda, ac maent yn darparu amgylchedd dysgu cadarnhaol i’r disgyblion.

Yng ngoleuni’r safonau a gyflawnir a’r ffaith fod adnoddau’n cael eu rheoli’n ofalus, mae’r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Oherwydd niferoedd bach y disgyblion ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol, mae angen trin canlyniadau asesiadau disgyblion yn ofalus. Gall canlyniadau un disgybl gael effaith sylweddol ar berfformiad yr ysgol yn gyffredinol.

Yn 2012 ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, o gymharu ag ysgolion lle mae gan gyfran debyg o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim, roedd canlyniadau ar gyfer disgyblion sy'n cyflawni deilliant 5 (y lefel ddisgwyliedig ar gyfer saith oed) yn golygu bod yr ysgol yn y 50% uchaf ar gyfer medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu a datblygiad mathemategol. Roedd canlyniadau'r ysgol ychydig islaw'r cyfartaledd ar gyfer datblygiad personol a chymdeithasol. At ei gilydd, perfformiodd yr ysgol uwchlaw'r cyfartaledd lleol a chyfartaledd Cymru. O gymharu â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un teulu, roedd perfformiad uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu a datblygiad mathemategol, ond islaw cyfartaledd y teulu ar gyfer datblygiad personol a chymdeithasol.

Mae canlyniadau ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi dangos amrywiad sylweddol dros y pedair blynedd diwethaf, ond maent uwchlaw cyfartaledd y teulu ar y cyfan. Yn 2012, o gymharu â chanlyniadau cymharol ysgolion tebyg, roedd canlyniadau yn y 50% uchaf ar gyfer mathemateg, ond yn y 50% is ar gyfer Saesneg a gwyddoniaeth. Roedd canlyniadau'r ysgol uwchlaw cyfartaleddau lleol, ond roedd canlyniadau Saesneg a gwyddoniaeth islaw cyfartaleddau Cymru gyfan.

Yn y Cyfnod Sylfaen, roedd perfformiad disgyblion ar y lefel uwch (deilliant 6) mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu a datblygiad mathemategol ychydig islaw cyfartaledd y teulu. Fodd bynnag, roedd perfformiad mewn datblygiad personol a chymdeithasol uwchlaw cyfartaledd y teulu. Mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel uwch (lefel 5) yng nghyfnod allweddol 2, ym mhob un o'r tri maes pwnc, wedi amrywio'n sylweddol dros y pedair blynedd diwethaf, ond roedd cryn dipyn uwchlaw cyfartaleddau'r teulu yn 2012. Roedd hyn yn golygu bod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae bechgyn yn perfformio'n well na merched mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu a datblygiad mathemategol ar y lefel ddisgwyliedig (deilliant 5). Fodd bynnag, mae mwy o ferched yn cyflawni'r lefel uwch mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu. Yng nghyfnod allweddol 2, nid oes gwahaniaeth sylweddol ym mherfformiad bechgyn a merched ar y lefel ddisgwyliedig mewn mathemateg a gwyddoniaeth. Mae merched yn perfformio'n well na bechgyn mewn Saesneg ar y lefelau disgwyliedig a'r lefelau uwch.

Mae canlyniadau'r ysgol, ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol, yn dangos na fu gwahaniaeth sylweddol mewn deilliannau ar gyfer disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad oes ganddynt hawl i'w cael.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Deilliannau o'r holiadur i ddisgyblion

Llenwodd saith deg naw o ddisgyblion yr holiadur i ddisgyblion.

Dywed pob disgybl eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae bron pob un ohonynt yn teimlo eu bod yn gwybod beth i'w wneud ac i bwy i ofyn os ydynt yn cael eu gwaith yn anodd. Mae bron pob un ohonynt yn credu bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio a bod pob disgybl yn gwybod gyda phwy i siarad os ydynt yn poeni neu'n gofidio. Dywed bron pob disgybl eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol a bod staff yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. Dywed bron pob un ohonynt hefyd fod ganddynt ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud eu gwaith a'u bod yn teimlo bod gwaith cartref yn ddefnyddiol. Mae bron pob disgybl yn cytuno bod yr ysgol yn eu haddysgu i fod yn iach, a'u bod yn cael digonedd o gyfleoedd i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae ymatebion disgyblion yn cyd-fynd yn fras ag ymatebion disgyblion mewn ysgolion ledled Cymru.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn credu bod disgyblion eraill yn ymddwyn yn dda yn y dosbarth, a dywed llawer ohonynt fod hyn hefyd yn wir amser egwyl ac amser cinio. Mae'r ymateb hwn yn cymharu'n ffafriol â safbwyntiau disgyblion mewn ysgolion cynradd eraill.

### Deilliannau o'r holiadur i rieni a gofalwyr

Llenwodd tri deg dau o rieni neu ofalwyr yr holiadur. Mae eu hymatebion yn cyd-fynd yn agos ag ymatebion rhieni sydd â disgyblion mewn ysgolion cynradd ledled Cymru. Dywed bron pob un o'r rhieni eu bod yn fodlon â'r ysgol, a dywed pob un ohonynt fod eu plentyn yn hoffi'r ysgol. Mae bron pob rhiant yn teimlo bod eu plentyn wedi ymgynefino'n gyflym â bywyd ysgol, a dywed pob un ohonynt fod yr addysgu'n dda, a bod gan staff ddisgwyliadau uchel o ddisgyblion. Dywed pob rhiant fod eu plentyn yn gwneud cynnydd da, ac mae bron pob un ohonynt yn credu bod ymddygiad yn dda a bod staff yn trin disgyblion yn deg ac yn eu parchu.

Mae pob un ohonynt yn cytuno bod gwaith cartref yn ddefnyddiol, ac mae bron pob un ohonynt yn credu eu bod yn cael gwybodaeth dda am gynnydd eu plentyn. Mae pob rhiant yn cytuno bod disgyblion yn cael cymorth unigol priodol os bydd angen. Maent yn credu bod plant yn cael cymorth i aeddfedu a chymryd cyfrifoldeb, a'u bod yn cael eu paratoi'n dda ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu haddysg. Dywed pob un ohonynt fod eu plentyn yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a bod eu plentyn yn cael ei annog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae pob un ohonynt yn cytuno bod yr ysgol yn darparu ystod dda o weithgareddau. Mae pob un o'r rhieni'n credu bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda, a dywed bron pob un ohonynt eu bod yn teimlo'n gyfforddus yn mynd at y staff gyda chwestiynau neu awgrymiadau. Dywed pob rhiant eu bod yn deall sut i wneud cwyn pe bai angen.

# Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Sue Davies | Arolygydd Cofnodol |
| Rhona Edwards | Arolygydd Tîm |
| Terry Williams | Arolygydd Tîm |
| Edward Tipper | Arolygydd Lleyg |
| Sally-Ann Wright | Arolygydd Cymheiriaid |
| Rhian Astley | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Cwricwlwm Cenedlaethol**

**Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol**

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

**Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol**

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.